Office for
**Budget
Responsibility**

# Rhagolwg trethi Cymreig

Diweddariad Mawrth 2022

# 1 Rhagolygon treth wedi'u diweddaru

## Cyflwyniad

1.1 Yn ein *rhagolwg trethi Cymreig* ym mis Rhagfyr 2021 (*RTC*) fe wnaethom gyflwyno rhagolygon treth pum mlynedd ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru. Roedd yn cwmpasu cyfraddau treth incwm Cymru, y dreth trafodiadau tir (TTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (TGT), yn ogystal â threthi cyfatebol Llywodraeth y DU sy'n ofynnol i gyfrifo addasiadau grant bloc.[1]

1.2 Roedd y rhagolygon hynny'n seiliedig ar ein rhagolygon economi a chyllid ar gyfer y DU gyfan ym mis Hydref 2021, ynghyd â data derbyniadau newydd a gyhoeddwyd ers hynny.[2] Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni gyhoeddi rhagolygon wedi'u diweddaru ar gyfer TTT a TGT – gan adlewyrchu'r data alldro a gyhoeddwyd ers mis Rhagfyr – ochr yn ochr â'i Chyllideb derfynol ar gyfer 2022-23. Maent yn dal i gael eu hategu gan benderfynyddion o'n rhagolygon economaidd a chyllidol ym mis Hydref 2021 ar gyfer y DU gyfan.[3]

1.3 Fe wnaeth bwletin cyllid sector cyhoeddus yr ONS a gyhoeddwyd ar 22 Chwefror nodi syrpreis manteisiol o £7.7 biliwn mewn derbyniadau hunanasesu ar gyfer y DU gyfan o gymharu â'r proffiliau misol sy'n gyson â'n rhagolwg mis Hydref. Bydd y taliadau hyn yn ymwneud yn bennaf â rhwymedigaethau treth a gronnwyd ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Nid oedd rhaniad manwl rhwng treth incwm SA a threth enillion cyfalaf (sydd hefyd yn cael ei thalu drwy SA) o ddata treth weinyddol ar gael ar gyfer bwletin mis Chwefror yr ONS. Yn seiliedig ar faint cymharol y ddwy ffrwd dreth, tybiwyd bod oddeutu dwy ran o dair yn ymwneud â threth incwm SA ar gyfer y DU gyfan, ond gallai hyn fod yn destun diwygiadau sylweddol yn y misoedd nesaf pan fydd modd eu disodli â data wedi'u llywio gan ffurflenni treth. Ni wyddys ychwaith ar hyn o bryd faint o warged treth incwm SA sy'n ymwneud â threth incwm nad yw'n gynilion, nad yw'n dreth ar ddifidend – yr elfen sy'n destun cyfraddau Cymru. Ond mae'n amlwg y bydd goblygiadau i gyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2020-21 oherwydd y syrpreis manteisiol hwn, unwaith y bydd y rhwymedigaethau alldro terfynol wedi'u cyfrifo a'u cyhoeddi gan CThEM yn ddiweddarach eleni.

1.4 Nid ydym wedi diweddaru ein rhagolwg ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru yn wyneb y syrpreis hwn yn y diweddariad hwn o'r *RTC* tra'n aros am ragor o wybodaeth am gyfansoddiad a goblygiadau'r gwarged yn y dyfodol. I'r graddau y mae derbyniadau uwch na'r disgwyl yn arwain at ddiwygiad cynyddol i rwymedigaethau 2020-21, gallant effeithio ar yr addasiad cysoni alldro ar gyfer 2023-24, yn unol â'r fframwaith cyllidol. Bydd yr

[1] Mae'r fethodoleg ar gyfer yr addasiad i'r grant bloc wedi'i nodi yn *Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru*, Rhagfyr 2016. Nid oes gan yr SCC unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r penderfyniadau gwariant hyn na'r trafodaethau grant bloc, ond mae'r setliadau gwariant yn tynnu ar ein rhagolygon treth.
[2] Gweler e*in rhagolygon economaidd a chyllidol* Hydref 2021.
[3] Cynhyrchodd dadansoddwyr yn Llywodraeth Cymru ragolygon wedi'u diweddaru ar gyfer TTT a TGT ar 21 Chwefror 2022. Fe fu'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol yn craffu ar y rhagolygon hyn a'u cwblhau ar 22 Chwefror.

effaith ar yr addasiad cysoni yn dibynnu ar sut mae'r adolygiad yn effeithio ar refeniw Cymru o'i gymharu â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hefyd yn bosibl y byddai rhwymedigaethau uwch yn 2020-21 yn dangos yr angen am ddiwygiadau cynyddol i rwymedigaethau yn y dyfodol hefyd. Ond o ystyried natur effaith y pandemig ar y flwyddyn dreth 2020-21, ni fydd maint diwygiadau o'r fath yn hawdd i'w barnu. Mae nifer o resymau pam y gallai'r cryfder adlewyrchu goramcangyfrif o ba mor bell y gostyngodd incymau sy'n berthnasol i SA yn 2020-21, a fyddai'n cael eu hystyried yn effeithiau untro heb unrhyw oblygiadau ar gyfer rhwymedigaethau treth yn y dyfodol.


1.5 Byddwn yn rhoi golwg gychwynnol ar dreth incwm Cymru a'r DU gyfan yn y dyfodol yn ein cyhoeddiadau *Rhagolwg Economaidd a chyllidol a'n rhagolygon treth a gwariant datganoledig* nesaf ar gyfer y DU gyfan ar 23 Mawrth. Bydd y rhain hefyd yn adlewyrchu ein rhagolygon diweddaraf ar gyfer economi a chyllid y DU gyfan.

# Treth trafodiadau tir

## Datblygiadau diweddar

1.6 Mae Siart 1.1 yn dangos datblygiadau diweddar mewn derbyniadau TTT misol ac yn eu cymharu â'n rhagolwg diweddaraf ar gyfer derbyniadau yn 2021-22. Fe wnaeth y pandemig coronafeirws atal derbyniadau yn gynnar yn 2020-21 ond fe wnaethant wella'n gryf yn rhan olaf y flwyddyn. Yn ystod y deng mis o ddata alldro a gyhoeddwyd ar gyfer 2021-22 mae derbyniadau wedi parhau'n gryf, gan olygu ein bod yn adolygu ein rhagolwg ar gyfer 2021-22 o £28 miliwn ers mis Rhagfyr (gweler Tabl 1.1).

### Siart 1.1: Alldro treth trafodiadau tir diweddar



Ffynhonnell: ACC, SCC

1.7 Mae ein rhagolwg Treth Trafodiadau Tir yn dechrau o'n rhagolygon marchnad eiddo ar gyfer y DU gyfan ac asesiad i weld a yw marchnad eiddo Cymru yn gwyro oddi wrth y rhagolwg hwnnw yn y tymor byr ac i ba raddau. (Yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, rydym yn tybio bod prisiau a thrafodiadau eiddo yng Nghymru'n symud yn unol â'r rhai ar draws y DU gyfan.) Rydym wedi adolygu'r codiad i'r rhagolwg ar gyfer chwyddiant prisiau tai sy'n sail i'n rhagolygon TTT preswyl yn 2021-22 o 3.2 i 3.4 pwynt canran, er mwyn adlewyrchu'r momentwm ychydig yn uwch yn chwyddiant prisiau tai Cymru sy'n amlwg yn y data diweddaraf.

## Y rhagolygon diweddaraf

1.8 Mae Tabl 1.1 yn dangos ein rhagolygon diweddaraf ar gyfer TTT a newidiadau ers mis Rhagfyr. Mae cyfanswm y derbyniadau wedi'u hadolygu i fyny £18 miliwn (5 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n adlewyrchu alldro cryfach na'r disgwyl ar gyfer pob cydran o TTT. Mae hanner y cryfder ychwanegol hwn mewn derbyniadau yn cael ei ddwyn ymlaen i flynyddoedd y dyfodol o'r rhagolwg, gan ein bod yn tybio ei fod yn deillio o gyfuniad o newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig (megis cynilion gorfodol yn llifo i mewn i bryniannau eiddo) a fydd yn lleihau dros amser, a newidiadau strwythurol mwy parhaus a fydd yn arwain at ddosbarthiad mwy treth-gyfoethog o drafodiadau. Gan nad yw'n bosibl canfod yr union bwysau i'w rhoi ar y ffactorau hyn, rhoddir yr un pwysau iddynt yn y dyfarniad ar gyfer y rhagolwg.

1.9 Gan ddadansoddi'r gwahaniaeth cyffredinol fesul cydran, mae Tabl 1.1 yn dangos:

- Mae derbyniadau **prif gyfraddau preswyl** wedi'u hadolygu i fyny o £3 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd;
- Mae derbyniadau o **gyfraddau uwch ar eiddo preswyl ychwanegol** wedi'u hadolygu i fyny o £2 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd; ac
- Mae derbyniadau **eiddo masnachol** wedi'u hadolygu i fyny o £13 miliwn mwy sylweddol (13 y cant) y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn adlewyrchu cryfder parhaus yn yr alldro, gyda mis Tachwedd a mis Rhagfyr yn cofnodi'r chweched a'r ail gyfanswm uchaf ar gyfer derbyniadau misol ers datganoli TTT (gyda mis Ebrill wedi cofnodi'r cyfanswm uchaf).

## Tabl 1.1: Rhagolwg treth trafodiadau tir – diweddariad mis Mawrth 2022

| | £ miliwn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | Rhagolwg | | | | | |
| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
| **Cyfanswm TTT** | | | | | | | |
| Rhagolwg mis Rhagfyr | 212 | 367 | 366 | 383 | 404 | 432 | 465 |
| Diweddariad mis Mawrth | 212 | 395 | 381 | 398 | 420 | 449 | 482 |
| **Newid** | **0** | **28** | **15** | **16** | **16** | **17** | **18** |
| **Prif gyfraddau preswyl** | | | | | | | |
| Rhagolwg mis Rhagfyr | 89 | 176 | 185 | 196 | 209 | 229 | 252 |
| Diweddariad mis Mawrth | 89 | 180 | 187 | 198 | 212 | 233 | 255 |
| **Newid** | **0** | **4** | **3** | **3** | **3** | **3** | **4** |
| **Cyfraddau uwch ar eiddo ychwanegol** | | | | | | | |
| Rhagolwg mis Rhagfyr | 66 | 87 | 86 | 87 | 91 | 95 | 100 |
| Diweddariad mis Mawrth | 66 | 90 | 87 | 89 | 92 | 97 | 101 |
| **Newid** | **0** | **3** | **1** | **2** | **2** | **2** | **2** |
| **Masnachol** | | | | | | | |
| Rhagolwg mis Rhagfyr | 58 | 104 | 95 | 100 | 104 | 108 | 113 |
| Diweddariad mis Mawrth | 58 | 125 | 106 | 111 | 115 | 120 | 126 |
| **Newid** | **0** | **21** | **11** | **11** | **12** | **12** | **13** |

# Treth gwarediadau tirlenwi

1.10 Mae Tabl 1.2 yn dangos ein rhagolwg TGT wedi'i ddiweddaru. Mae’r adolygiad bach tuag i lawr yn adlewyrchu’r ffaith bod data alldro wedi’u cynnwys ar gyfer trydydd chwarter 2021-22, effaith yr ydym wedi tybio y bydd yn parhau ym mlynyddoedd y dyfodol i’r rhagolwg. Mae’n ymddangos bod y data diweddaraf yn cadarnhau bod y cryfder a gofnodwyd yn hanner cyntaf 2021-22 i’w briodoli’n bennaf i weithgarwch dal i fyny yn ymwneud â’r pandemig, gyda derbyniadau’n disgyn o gyfartaledd o £13.1 miliwn y chwarter yn yr hanner cyntaf i £9.6 miliwn yn y trydydd chwarter. Mae hyn yn dal i fod ychydig yn uwch nag y byddai ein model rhagolwg TGT yn ei ragweld, ag arwyddion y gallai'r swm uwch fod yn gysylltiedig â mwy o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ar ôl cael ei wrthod o weithfeydd ailgylchu.

## Tabl 1.2: Rhagolwg treth gwarediadau tirlenwi – diweddariad Mawrth 2022

| | £ miliwn | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Alldro | Rhagolwg | | | | | |
| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
| Rhagolwg mis Rhagfyr | 32 | 45 | 36 | 36 | 36 | 35 | 35 |
| Diweddariad mis Mawrth | 32 | 44 | 35 | 35 | 35 | 35 | 35 |
| **Newid** | **0** | **-1** | **-1** | **-1** | **-1** | **-1** | **-1** |
| *ac o hyn:* | | | | | | | |
| Data | | -1 | -1 | -1 | -1 | -1 | -1 |

# 2 Gwerthuso rhagolygon blaenorol

2.1 Fel rhagolygydd swyddogol Llywodraeth Cymru, credwn ei bod yn bwysig disgrifio ein rhagolygon yn fanwl. Gwnaethom hynny hefyd ar gyfer ein methodolegau rhag-weld yn ein *rhagolwg trethi Cymreig* (RTC) cyntaf – sydd bellach ar gael ar ein gwefan – ac ym mhob RTC rydym yn amlygu'r meysydd o ansicrwydd ynghylch ein rhagolygon canolog. Credwn hefyd ei bod yn bwysig archwilio'n rheolaidd sut mae'r rhagolygon hyn yn cymharu â data alldro unwaith y bydd ar gael. Wrth gyhoeddi data alldro ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru ym mis Gorffennaf 2021, gallwn nawr werthuso rhagolygon dethol ar draws yr holl drethi Cymreig yr ydym yn eu rhag-weld ar gyfer Llywodraeth Cymru.

2.2 Mae asesu perfformiad ein rhagolygon ar ôl y digwyddiad yn bwysig ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd, ond mae hefyd yn ein helpu i nodi ffyrdd o'u gwella. Rydym yn cynnal asesiadau tebyg o'n rhagolygon ar gyfer y DU gyfan mewn *adroddiad gwerthuso Rhagolygon* bob blwyddyn. Yn ein RTC yn 2021, fe wnaethom gyflwyno dadansoddiad lefel uchel o berfformiad rhagolygon blaenorol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Yn y bennod hon rydym yn dyfnhau'r dadansoddiad hwnnw ac yn ei ymestyn i dderbyniadau'r dreth trafodiadau tir (TTT) a'r dreth gwarediadau tirlenwi (TGT). Rydym wedi dewis rhagolygon a ddefnyddiwyd i osod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd diweddaraf o alldro. Mae hyn yn golygu ein bod yn dadansoddi alldro 2019-20 ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm (a gyhoeddir ag oedi hir) a 2020-21 ar gyfer alldro derbyniadau TTT a TGT (sy'n llawer mwy amserol).

2.3 Yn y bennod hon, felly, rydym yn asesu perfformiad ein:

- Rhagolwg Tachwedd 2018 ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru 2019-20; a
- Rhagolygon Chwefror 2020 ar gyfer treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi 2020-21.

## Cyfraddau treth incwm Cymru

2.4 Yn ein RTC ym mis Rhagfyr 2021 fe wnaethom ddangos sut roedd ein pum rhagolwg diweddaraf ar gyfer cyfraddau Cymru yn 2019-20 yn cymharu â'r flwyddyn alldro gyntaf ers iddynt gael eu datganoli. Fe ddaethom i'r casgliad, fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, bod rhagolygon mwy diweddar yn fwy cywir, yn rhannol oherwydd y gallant ddefnyddio gwybodaeth amserol am dderbyniadau treth incwm TWE o system gwybodaeth amser real (RTI) CThEM. Dangosodd hefyd fod modelu cyfran Cymru o gyfanswm derbyniadau treth incwm y DU wedi goramcangyfrif yr alldro'n gyson, tra bod gwallau'n ymwneud â rhag-weld rhwymedigaethau treth incwm y DU gyfan wedi bod yn gadarnhaol ac yn negyddol dros amser.

2.5 Gan adeiladu ar y dadansoddiad lefel uchel hwnnw, mae Tabl 2.1 yn edrych yn ôl ymhellach ar sut oedd ein rhagolwg Tachwedd 2018 ar gyfer cyfraddau Cymru yn 2019-20 yn cymharu â'r alldro. Y rhagolwg hwn oedd sail Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, a baratowyd cyn i ni ymgymryd â'r rôl ffurfiol fel rhagolygydd annibynnol Llywodraeth Cymru. Roedd yn seiliedig ar yr Arolwg o Incwm Personol (SPI) ar gyfer 2015-16, ynghyd â data derbyniadau treth y DU gyfan hyd at ganol 2018, a oedd yn cwmpasu rhwymedigaethau TWE ar gyfer 2017-18 gyfan a rhywfaint o 2018-19, ond ni ddarparodd unrhyw wybodaeth am rwymedigaethau hunanasesu yn 2017-18. Ar y pryd, ni wnaethom ddefnyddio data RTI yn ein modelu cyfrannau ar gyfer Cymru. Yr unig addasiadau a wnaethom i gyfran Cymru ar sail SPI oedd mewn perthynas â chyfraddau twf poblogaeth cymharol ac effeithiau anghymesur unrhyw fesurau polisi a ddaeth i rym ar ôl y flwyddyn SPI neu a fyddai'n dod i rym yn y dyfodol.

2.6 Yn gyffredinol, cododd cyfraddau treth incwm Cymru lai na'r disgwyl o £18 miliwn (0.9 y cant). Gwall bach yw hwn yn ôl safonau hanesyddol – y gwall absoliwt cyfartalog ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ein rhagolygon treth incwm ar gyfer y DU gyfan yw 2.4 y cant.

2.7 Gellir priodoli'r diffyg o £18 miliwn o'i gymharu â'n rhagolwg i dri ffactor:

- Fe wnaeth y gwall sy'n gysylltiedig â **modelu cyllidol** gynhyrchu diffyg o £31 miliwn (1.5 y cant). Fel y nodwyd uchod, nid oedd y rhagolwg hwn eto'n ymgorffori addasiad RTI i'n modelu cyfrannau Cymreig, gan nad oeddem wedi profi eto a fyddai'n darparu canllaw da i newidiadau yng nghyfran Cymru ar draws yr holl dreth incwm. Mae'r dystiolaeth bellach yn dangos bod newidiadau mewn cyfrannau enillion RTI yn ganllaw rhesymol i symudiadau ehangach. Pe byddai'r rhagolwg wedi gweithredu addasiad mynegai yn seiliedig ar symudiadau mewn enillion RTI, byddai wedi bod £15 miliwn yn is. Rydym bellach yn cynnwys addasiadau o'r fath yn ein rhagolygon fel mater o drefn, gan wneud defnydd o'r flwyddyn lawn ddiweddaraf o ddata RTI a hefyd amcangyfrif y flwyddyn gyfredol sy'n tynnu ar y data RTI diweddaraf sydd ar gael o'r flwyddyn hyd yn hyn.

- Fe wnaeth y gwall oherwydd **polisïau a gyhoeddwyd wedyn** gynhyrchu diffyg o £1 miliwn (0.04 y cant). Newidiadau polisi oedd yn gyfrifol am y gwall lleiaf wrth ragweld ac maent yn adlewyrchu addasiadau a wnaed i'n cyfrifiadau cyfran cyffredinol oherwydd sgil-effeithiau rhewi cyfraddau uwch yn yr Alban. Mae hyn yn adlewyrchu newid mecanyddol i'r ffordd y caiff y gyfran ei modelu yn hytrach nag ymateb byd go iawn gan dalwyr treth incwm Cymru i newidiadau yn y trothwyon treth a oedd yn berthnasol yn yr Alban yn 2019-20.

- Cafodd y ddau ffactor hyn eu gwrthbwyso'n rhannol gan dwf cryfach na'r disgwyl ym **mhenderfynyddion economaidd rhwymedigaethau treth incwm**, a gynhyrchodd warged o £14 miliwn (0.7 y cant) o gymharu â'n rhagolwg. Mae hyn yn adlewyrchu perfformiad gwell o ran twf cyflogau a salarïau ledled y DU o gymharu â'n rhagolwg o Ragolygon Economaidd a Chyllid (REC) ym mis Hydref 2018. Yn gyffredinol, roedd twf 0.6 pwynt canran yn uwch na'n rhagolwg, gyda thwf cyflogaeth yn uwch na'n

rhagolwg o 0.3 pwynt canran, tra bod twf enillion cyfartalog wedi perfformio'n well o 0.5 pwynt canran.[1]

## Tabl 2.1: Cyfraddau treth incwm Cymru yn 2019-20: rhagolwg yn erbyn alldro

| | £ miliwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagolwg | Alldro | Gwahaniaeth | *ac o hyn:* | | |
| | | | | Penderfynyddion economaidd | Modelu cyllidol | Newidiadau polisi |
| Cyfraddau treth incwm Cymru | 2,059 | 2,041 | -18 | 14 | -31 | -1 |

# Treth trafodiadau tir


2.8 Mae Tabl 2.2 yn cymharu ein rhagolygon mis Chwefror 2020 ar gyfer derbyniadau TTT yn 2020-21 ag alldro, gan ddangos diffyg cyffredinol o £39 miliwn (16 y cant). At ei gilydd, mae diffyg yng ngwerth trafodiadau mewn gwahanol farchnadoedd yn esbonio oddeutu tri chwarter o'r diffyg cyffredinol – wedi'u labelu'n 'benderfynyddion economaidd' yn y tabl gan eu bod yn cael eu hysgogi gan ragdybiaethau ynghylch prisiau eiddo a nifer y trafodiadau. Mae siart 2.1 yn dangos:

- Gwelodd **marchnadoedd eiddo preswyl yng Nghymru** brisiau'n codi'n sylweddol yn 2020-21, gyda chwyddiant prisiau tai 3 pwynt canran yn uwch na'n rhagolwg. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r cyfuniad o alw mygedig yn cael ei ryddhau yn dilyn llacio'r cyfyngiadau cysylltiedig â'r pandemig, ynghyd â'r 'ras am ofod', cwympiadau sydyn mewn cyfraddau llog, a rhai cynilion uwch a gronnwyd yn ystod cyfnodau cloi yn llifo i'r farchnad dai. Ond roedd cyfyngiadau'n golygu bod trafodiadau yn sylweddol is na'n rhagolwg, gan ddisgyn 12.8 y cant (18.5 pwynt canran yn is na'r rhagolwg) er gwaethaf y cymorth gan doriadau treth dros dro. Cyfunodd hyn i gynhyrchu alldro sylweddol is na'r disgwyl ar gyfer twf yng nghyfanswm gwerth trafodiadau preswyl, a ddisgynnodd 7 y cant – diffyg o bron 17 pwynt canran o'i gymharu â'n rhagolwg.

- Roedd **marchnadoedd eiddo masnachol Cymru** gryn dipyn yn wannach na dybiwyd gan ein rhagolwg cyn-bandemig. Yn debyg i farchnadoedd preswyl, cododd prisiau ond gostyngodd trafodiadau, gyda chyfanswm gwerth y trafodiau'n disgyn 6 y cant yn hytrach na chodi 0.6 y cant fel y rhagwelwyd. Mae hyn yn adlewyrchu'r aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn ystod cyfnodau cloi, ynghyd â'r ffaith na chafodd eiddo masnachol fudd o wyliau treth neu o'r ffactorau eraill sy'n ymddangos fel pe byddent wedi rhoi hwb i'r farchnad breswyl.

[1]Nid yw'r gwahaniaethau yn adio oherwydd talgrynnu.

## Siart 2.1: Prisiau eiddo a thrafodiadau: rhagolygon yn erbyn alldro




Ffynhonnell: SCC

2.9 Edrych ar berfformiad derbyniadau yn y tair marchnad TTT unigol:

- **Prif gyfraddau preswyl**. Mae £31 miliwn (79 y cant o'r diffyg cyffredinol) yn ymwneud ag TTT preswyl. Roedd hyn yn fwy nag a eglurwyd gan newidiadau polisi dilynol, yr amcangyfrifir eu bod wedi costio £33 miliwn yn 2020-21 – y gost fwyaf yn gysylltiedig â mesurau cymorth cysylltiedig â'r pandemig megis gwyliau TTT. Roedd y twf is na'r disgwyl yng ngwerth y trafodiadau eiddo preswyl a ddisgrifiwyd uchod yn gyfrifol am £15 miliwn o'r diffyg. Yn rhannol wrthbwyso'r ffynonellau hyn o syrpreis anfanteisiol oedd y syrpreis manteisiol o £17 miliwn yn ymwneud â modelu cyllidol. Mae hyn yn adlewyrchu perfformiad cryfach trafodiadau pris uwch o gymharu â rhai â phris is yn ystod 2020-21, a gododd y gyfradd dreth effeithiol a dalwyd oherwydd strwythur cynyddol y cyfraddau TTT – er enghraifft, gostyngodd trafodiadau am brisiau o dan £500,000 14 y cant flwyddyn-ar-flwyddyn yn 2020-21, tra bod trafodiadau am brisiau uwch na £500,000 wedi cynyddu 41 y cant (gweler Siart 3.3 yn ein RTC ym mis Rhagfyr 2021).

- **Cyfraddau uwch ar eiddo ychwanegol**. Roedd y derbyniadau £4 miliwn yn fwy na'n rhagolwg. Er bod gwerth is na'r disgwyl o drafodiadau eiddo wedi gostwng derbyniadau, gorbwyswyd yr effaith hon gan fodelu cyllidol (gan ychwanegu £3 miliwn) sy'n debygol o ymwneud â'r un effeithiau cyfansoddiadol a roddodd hwb i dderbyniadau preswyl, a newidiadau polisi dilynol (gan ychwanegu £10 miliwn). Mae'r olaf yn adlewyrchu cau allan cyfraddau ychwanegol a godir ar ail gartrefi ac eiddo prynu-i-osod o wyliau'r dreth trafodiadau tir, a oedd yn golygu bod yr holl dreth a dalwyd ar drafodiadau cymwys wedi'i chofnodi fel refeniw o'r cyfraddau uwch yn ystod cyfnod y gwyliau, gan hybu'r derbyniadau hyn.

- **Derbyniadau masnachol**. Mae £12 miliwn o'r diffyg cyffredinol yn ymwneud â derbyniadau eiddo masnachol. Mae'r diffyg hwn yn adlewyrchu gwerth is na'r disgwyl o drafodiadau masnachol a gwallau modelu cyllidol, sydd hefyd yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau rhwng cyfansoddiad alldro trafodiadau a'r hyn a dybiwyd ym model y rhagolwg, a oedd ar y pryd yn seiliedig ar drafodiadau yn 2018-19.

## Tabl 2.2: Derbyniadau treth trafodiadau tir yn 2020-21: rhagolwg yn erbyn alldro

| | £ miliwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagolwg | Alldro | Gwahaniaeth | ac o hyn: | | |
| | | | | Penderfynyddion economaidd | Modelu cyllidol | Newidiadau polisi |
| **Cyfanswm rhagolwg TTT** | **250** | **211** | **-39** | **-28** | **13** | **-24** |
| *ac o hyn:* | | | | | | |
| Prif gyfraddau preswyl | 118 | 87 | -31 | -15 | 17 | -33 |
| Cyfraddau uwch ar eiddo ychwanegol | 61 | 65 | 4 | -9 | 3 | 10 |
| Masnachol | 71 | 58 | -12 | -4 | -8 | 0 |

# Treth gwarediadau tirlenwi

2.10 Mae Tabl 2.3 yn cymharu ein rhagolwg Chwefror 2020 ar gyfer TGT yn 2020-21 ag alldro, gan ddangos diffyg cyffredinol o £4 miliwn (11 y cant). Priodolir hyn bron yn gyfan gwbl i fodelu cyllidol ac fe'i hysgogwyd yn bennaf gan effaith fawr y pandemig yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol pan oedd cyfyngiadau cloi llym ar waith am lawer o'r amser. Roedd y derbyniadau ar gyfartaledd yn £9.3 miliwn y chwarter yn 2019-20, cyn gostwng i £5.4 miliwn yn chwarter cyntaf 2020-21, gan adfer i gyfartaledd o £8.9 miliwn y chwarter yng ngweddill y flwyddyn ariannol. O ran y categorïau gwastraff, roedd y diffyg o £4 miliwn o ganlyniad i or-ragweld gwastraff cyfradd safonol, sef swmp y derbyniadau.

## Tabl 2.3: Derbyniadau treth gwarediadau tirlenwi yn 2020-21: rhagolwg yn erbyn alldro

| | £ miliwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagolwg | Alldro | Gwahaniaeth | ac o hyn: | | |
| | | | | Penderfynyddion economaidd | Modelu cyllidol | Newidiadau polisi |
| Cyfanswm rhagolwg TGT | 36 | 32 | -4 | 0 | -4 | 0 |